Islam Brydeinig Ddigidol: Sut mae Amgylcheddau Islamaidd Seiber yn effeithio ar fywyd pob dydd?

Briff Polisi – Cymru

Yr Athro Gary R. Bunt, Yr Athro Sariya Cheruvallil-Contractor, Yr Athro Frederic Volpi, Dr Khadijah Elshayyal, Dr Sadek Hamid, Dr Laura Jones, Dr Alamgir Ahmed a Dr Dan Range

Ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (rhif grant ES/W002175/1) 2022 -2025
https://digitalbritishislam.com/

Yr Athro Gary R. Bunt (Prif Ymchwilydd): g.bunt@uwtsd.ac.uk
Yr Athro Frederic Volpi (Cyd-Ymchwilydd): Frederic.Volpi@ed.ac.uk
Yr Athro Sariya Cheruvallil-Contractor (Cyd-Ymchwilydd): ac0967@coventry.ac.uk

1. Cyflwyniad

Rhwng 2022-2025, defnyddiodd y prosiect Islam Brydeinig Ddigidol ystod o ddulliau ymchwil[1] i astudio bywydau digidol a phrofiadau pob dydd Mwslimiaid yn y DU. Mae ein canfyddiadau yn taflu goleuni ar dueddiadau, pryderon a dyheadau ynghylch lle dyfeisiau digidol ym mywydau beunyddiol Mwslimiaid, fel y mynegwyd gan y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil. Canolbwyntiodd ein hymchwil ar Amgylcheddau Islamaidd Seiber sy'n cynnwys gwahanol fathau o fannau a llwyfannau digidol ag iddynt amrywiaeth o ddibenion – masnachol, crefyddol, cymdeithasol neu fel arall. Mae llwyfannau o'r fath wedi dod yn fwyfwy pwysig ar gyfer bywyd Mwslimaidd pob dydd ac ar gyfer rhyngweithio Mwslimaidd â'r gymdeithas ehangach.

Isod ceir crynodeb o ganfyddiadau a blaenoriaethau polisi o dan dair thema allweddol – galluogedd gwleidyddol, awdurdod crefyddol a rhywedd – yn ogystal â ffocws penodol ar gyd-destun y DU a Chymru.

2. Galluogedd Gwleidyddol

Mae llwyfannau digidol, sy'n hwyluso rhwydweithio ar draws daearyddiaeth, yn offer pwysig ar gyfer ymgyrchedd Mwslimaidd, ar bynciau yn cynnwys Islamoffobia, annog cofrestru pleidleiswyr, cydraddoldeb rhywiol a gwrthdaro byd-eang. Ym mhrofiad y cyfranogwyr, mae dwy ochr i fannau rhwydweithio ar-lein: ar un llaw, maent yn fannau hyblyg a deinamig ar gyfer ymgyrchedd, gan ganiatáu cyfathrebu effeithlon gyda syniadau'n llifo'n rhwydd. Ar y llaw arall, mae natur anrheoleiddiedig llawer o fannau ar-lein yn rhoi rhwydd hynt i ddefnyddio iaith casineb a'r hyn a ddisgrifiwyd fel 'beirniadu torfol' neu 'ganslo' gelyniaethus.

Dywedodd dynion a menywod eu bod bob amser yn 'hunan-sensro' yn eu rhyngweithio ar-lein. Yn achos cyfranogwyr gwrywaidd, roedd hyn yn aml yn cael ei briodoli i bryderon ynghylch gwyliadwriaeth neu 'docsio'. Cyfeiriodd cyfranogwyr benywaidd hefyd at ofnau ynghylch diogelwch pe baent yn rhannu barn ddadleuol.

Dim ond 17% o Fwslimiaid sy'n teimlo'n hollol rydd i fynegi eu barn ar-lein am wrthdaro ledled y byd o'i gymharu â 27% yn y sampl genedlaethol.

Mae mannau ar-lein yn darparu cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer ymgysylltu gwleidyddol ond mae Mwslimiaid hefyd yn mynegi petruster ynghylch rhannu eu barn. **Dylai llunwyr polisi ailarchwilio deddfwriaeth ar ddiogelwch ac anhysbysrwydd digidol i sicrhau bod Mwslimiaid a grwpiau eraill sy'n agored i niwed yn teimlo'n ddiogel wrth gymryd rhan mewn disgwrs wleidyddol ar-lein.**

3. Awdurdod Crefyddol

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi profi i fod yn rym sy'n democrateiddio. Mae ein cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu uniongyrchol â ffigurau dylanwadol o awdurdod crefyddol y mae'r

[1] Roedd y rhain yn cynnwys 10 grŵp ffocws ledled y DU ac ar-lein, archif o wefannau Mwslimaidd Prydeinig, arolwg ar-lein o 2000 o bobl, 20 cyfweliad â sefydliadau a dylanwadwyr Mwslimaidd, a 15 dyddiadur gan gyfranogwyr.

cyfryngau digidol yn ei ganiatáu. Maent hefyd yn mynegi sinigiaeth ynghylch pa mor hawdd y mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi'i gwneud i ffigurau o awdurdod 'hunanhonedig' ddod i'r amlwg: 'y cyfan sydd ei angen arnoch yw camera a thob'.

> Yn draddodiadol, pe baech yn dweud bod ysgolhaig yn rhywun awdurdodedig [roedd hynny] oherwydd bod ganddynt *ijaza* [cymhwyster crefyddol] a'u bod wedi hyfforddi o dan rywun. [Y dyddiau hyn ac ar-lein] mae'n ymddangos bod hynny'n cael ei daflu i'r cysgod i raddau gan ba mor slic yw'r cynhyrchiad.
> *Abdul Azim Ahmed, Ysgrifennydd Cyffredinol, Cyngor Mwslimaidd Cymru*

Er nad yw ffigurau o awdurdod crefyddol traddodiadol wedi'u disodli'n llwyr, mae cyfran fawr o'r Mwslimiaid a arolygwyd (71.1%) yn defnyddio YouTube at ddibenion crefyddol, yn enwedig y rhai 18-24 oed.

Mae gan arweinwyr Mwslimaidd mewn cyd-destunau digidol ac analog feysydd dylanwad gwahanol y dylid eu hystyried yn ofalus. **Ni ddylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddibynnu'n llwyr ar broffiliau neu bresenoldeb digidol wrth bennu hygrededd grwpiau/ unigolion Mwslimaidd.**

4. Rhywedd

Dywed menywod eu bod yn cael gwell mynediad at ddisgwrs a rhaglennu crefyddol trwy lwyfannau digidol. Mae llwyfannau digidol hefyd wedi hwyluso amlygu ysgolheictod ac arbenigedd menywod Mwslimaidd. Fel y nododd un cyfranogwr:

> Rwy'n credu bod y diwylliant hwn o fenywod fel y ffigur *hwnnw* o awdurdod ar-lein yn newid y drafodaeth am yr hyn y gall ac na all menywod ei wneud, oherwydd am amser hir [...] roedd y drafodaeth yn unochrog iawn, nid oedd modd perthnasu hynny i fenywod i'r un graddau.
> *Cyfranogwr Grŵp Ffocws, benywaidd, yn ei 20au, Caerdydd*

Fodd bynnag, mae dadleuon amserol ynghylch rolau rhywedd, gan gynnwys y 'manosffer' a'r 'dde amgen', wedi meddiannu trafodaethau ar-lein Mwslimaidd. Mae pryderon ynghylch sefydlu safbwyntiau polareiddiedig yn rhyfeloedd diwylliant yn treiddio trwy fannau disgwrs Mwslimaidd gymaint ag y maent yn ei wneud mewn unrhyw grŵp cymdeithasol arall.

Ymhlith Mwslimiaid, mae menywod yn fwy tebygol o anghytuno'n gryf â'r gosodiad eu bod yn barod i rannu barn ar-lein (32.8%) o'i gymharu â dynion (23.7%)

Gan adleisio ymchwil ehangach ar ddiogelwch digidol yn ôl rhywedd[2], mae menywod Mwslimaidd yn teimlo'n llai diogel ar-lein na dynion. **Dylai llunwyr polisi a grwpiau cymunedol weithio i ddileu'r bwlch diogelwch digidol yn ôl rhywedd a brofir ar draws y gymdeithas gyfan.**

[2] Ofcom, 2022 https://www.ofcom.org.uk/online-safety/online-abuse/ofcom-urges-tech-firms-to-keep-women-safer-online

5. Cyd-destun y Deyrnas Unedig a Chymru

Amlygodd arweinwyr Mwslimaidd a gyfwelwyd gennym yr heriau o gyfathrebu â chymuned Fwslimaidd sydd ar wasgar yn ddaearyddol yn y DU a manteision cyfryngau digidol wrth hwyluso hyn:

> Ein her fwyaf yw sut i fod yn wirioneddol weladwy [...] mewn byd sy'n fwy digidol ac sydd wedi'i wasgaru ledled y DU [...] Ni allwn wneud [digwyddiad personol] yn Llundain yn unig! Mae'r amgylchedd wedi ein helpu i gael gwared ar rwystrau.
>
> *Zara Mohammed, cyn Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Mwslimaidd Prydain*

Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun Cymru gyda llawer o Fwslimiaid ymhell i ffwrdd o ganolbwynt y gweithgarwch yn Ne Cymru. Cyfeiriodd cyfranogwyr grwpiau ffocws at ffrydio digwyddiadau a chyrsiau crefyddol ar-lein, a hygyrchedd cynnwys, fel pethau oedd yn grymuso yn hyn o beth.

Ar y llaw arall, cyfeiriodd cyfranogwyr at y lleihad mewn diddordeb a'r dirywiad yn ansawdd y cyfranogi mewn digwyddiadau a rhyngweithio cymunedol 'wyneb yn wyneb' gan ffigurau cymunedol lleol, athrawon a modelau rôl, sy'n awgrymu bod cynnwys ar-lein yn cael ei flaenoriaethu ar draul ymgysylltu personol.

Mae digwyddiadau hybrid a chydamserol yn cynnig ffyrdd trawsnewidiol o gysylltu ar gyfer grwpiau crefyddol lleiafrifol yng Nghymru, gan gynnwys mosgiau.

- **Dylai llunwyr polisi weithio i ddarparu cyllid, offer ac adnoddau pellach i grwpiau crefyddol lleiafrifol i gefnogi digwyddiadau hybrid. Gallai hyn gynnwys ailgylchu offer sector cyhoeddus diangen.**
- **Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gynnwys grwpiau crefyddol yn benodol mewn polisïau fel yr Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol fel y gallant fanteisio ar ddatblygiadau technolegol i wella deialog o fewn a rhwng cymunedau.**

Crynodeb – Meysydd Polisi â Blaenoriaeth:

1. *Galluogedd Gwleidyddol* - **Dylai llunwyr polisi ailarchwilio deddfwriaeth ar ddiogelwch ac anhysbysrwydd digidol i sicrhau bod Mwslimiaid a grwpiau eraill sy'n agored i niwed yn teimlo'n ddiogel wrth gymryd rhan mewn disgwrs wleidyddol ar-lein.**
2. *Awdurdod Crefyddol* - **Ni ddylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddibynnu'n llwyr ar broffiliau neu phresenoldeb digidol wrth bennu hygrededd grwpiau/unigolion Mwslimaidd.**
3. *Rhywedd* - **Dylai llunwyr polisi a grwpiau cymunedol weithio i ddileu'r bwlch diogelwch digidol yn ôl rhywedd a brofir ar draws y gymdeithas gyfan.**
4. *Cyd-destun y DU a Chymru* - **Dylai llunwyr polisi weithio i ddarparu cyllid, offer ac adnoddau pellach i grwpiau crefyddol lleiafrifol i gefnogi digwyddiadau hybrid. Gallai hyn gynnwys ailgylchu offer sector cyhoeddus diangen.**
5. *Cyd–destun y DU a Chymru* – **Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gynnwys grwpiau crefyddol yn benodol mewn polisïau fel yr Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol fel y gallant fanteisio ar ddatblygiadau technolegol i wella deialog o fewn a rhwng cymunedau.**